# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

## RHAN 5

GORFODI SAFONAU

## PENNOD 1

YMCHWILIO I FETHIANT I GYDYMFFURFIO Â SAFONAU ETC

*Ymchwiliadau*

### 71 Ymchwilio i fethiant i gydymffurfio â safonau etc

(1) Caiff y Comisiynydd ymchwilio i a yw person (D) wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol.

(2) Yn y Rhan hon, ystyr "gofyniad perthnasol" yw unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) dyletswydd i gydymffurfio â safon a bennir gan Weinidogion Cymru (gweler adran 25);

(b) gofyniad a gynhwysir mewn hysbysiad penderfynu yn rhinwedd adran 79 (gofyniad i baratoi cynllun gweithredu, neu i gymryd camau);

(c) cynllun gweithredu (gweler adrannau 79 a 80);

(d) gofyniad a gynhwysir mewn hysbysiad penderfynu yn rhinwedd adran 82 (rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant i gydymffurfio).

(3) Os dyletswydd i gydymffurfio â safon yw'r gofyniad perthnasol, dim ond os yw'n amau bod D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol y caiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan yr adran hon.

(4) Mae Atodlen 10 yn gwneud darpariaeth bellach ynglŷn ag ymchwiliadau.

**72 Terfynu ymchwiliad**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Comisiynydd yn cynnal ymchwiliad o dan adran 71.

(2) Caiff y Comisiynydd derfynu'r ymchwiliad ar unrhyw adeg.

(3) Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu terfynu'r ymchwiliad, rhaid i'r Comisiynydd—

(a) hysbysu pob person a chanddo fuddiant, a

(b) hysbysu D o'r rhesymau dros ddod i'r penderfyniad.

(4) Rhaid i'r Comisiynydd gydymffurfio ag is-adran (3) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dod i'r penderfyniad.